

Cod Ymddygiad Pobl Ifanc/Disgyblion

Dymuna Technocamps sicrhau bod pawb sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau, yn staff neu'n gyfranogwyr, yn deall ffiniau ymddygiad addas i sicrhau profiad diogel a llawn hwyl.

Cyfrifoldeb y Rhiant/Gwarcheidwad/Ysgol/Sefydliad Addysgol/Sefydliad Cyfeirio yw sicrhau y cedwir at y cod ymddygiad canlynol.

Trwy lofnodi'r cod ymddygiad hwn, rydych yn cytuno i'r amodau a nodir ynddo. Gall methu â chydymffurfio â'r cod ymddygiad beri y byddwn yn gofyn i chi a'ch Rhiant/Gwarcheidwad/Ysgol/Sefydliad Addysgol/Sefydliad Cyfeirio adael ac ni fyddwch yn gallu sicrhau eich lle ar weithdai eraill y prosiect.

Os nad ydych yn deall unrhyw ran o'r ddogfen hon, gofynnwch i aelod o dîm Technocamps a fydd yn fodlon ei hegluro i chi.

Cyfrifoldeb y Rhiant/Gwarcheidwad/Ysgol/Sefydliad Addysgol/Sefydliad Cyfeirio yw sicrhau:

- Y darperir y gymhareb gywir o bobl ifanc/disgyblion i staff yn unol â'ch polisi Rhiant/Gwarcheidwad/Ysgol/Sefydliad Addysgol/Sefydliad Cyfeirio
- Bod pob person ifanc/disgybl yng ngweithdy Technocamps yn ymwybodol ac yn deall y cod ymddygiad atodol
- Bod y Rhiant/Gwarcheidwad/Ysgol/Sefydliad Addysgol/Sefydliad Cyfeirio yn cymryd cyfrifoldeb am unrhyw ddifrod a wneir i eiddo Technocamps yn ystod y gweithdy
- Y bydd y bobl ifanc/disgyblion yn parhau o dan gyfrifoldeb y Rhiant/Gwarcheidwad neu athro/aelod o staff yr Ysgol/Sefydliad Addysgol/Sefydliad Cyfeirio yn ystod y gweithdy a'r daith i Gampws y Brifysgol ac adref.

Nod Technocamps yw sicrhau y cedwir at y canlynol:

- Bydd yr holl staff yn cael gwiriad CRB manwl cyn pob gweithdy
- Darparu amgylchedd gweithio diogel i bob defnyddiwr
- Darparu cyfleoedd cyfartal i bob defnyddiwr
- Darparu mynediad i ddefnyddwyr anabl

Gofynnwn i bob cyfranogwr i barchu a thrin pawb yn deg.

Ni chaniateir bwlio staff/myfyrwyr mewn unrhyw ffordd.

Mae bwlio yn cynnwys:

- Ymosodiad corfforol
- Cam-drin emosiynol gan gynnwys sylwadau am ymddangosiad, hil, diwylliant, rhywedd, rhyw ac anabledd.
- Cyswllt corfforol annymunol
- Gellir defnyddio ffonau symudol, ystafelloedd sgwrsio ar y rhyngwyd ac e-bost yn ddulliau o fwlio.

Parchwch reoliadau iechyd a diogelwch er eich mwyn chi ac eraill.

Rhwydweithio Cymdeithasol:

Ni chaniateir defnyddio Rhwydweithio Cymdeithasol a gwefannau amhriodol yn ystod y gweithdai. Byddwn yn gofyn i unrhyw un sy'n cael eu dal yn defnyddio'r safleoedd hyn i adael a gallai hyn effeithio ar allu eich Rhiant/Gwarcheidwad/Ysgol/Sefydliad Addysgol/Sefydliad Cyfeirio i fynychu gweithdai yn y dyfodol.

Defnyddio Cyfrifiaduron:

Yn ystod eich amser gyda Technocamps, rhoddir mynediad i chi i gyfrifiadur ac offer technegol arall. Gofynnwn eich bod yn defnyddio'r offer yn ofalus; byddwn yn gofyn i unrhyw un sy'n difrodi'r offer yn fwrriadol adael a gallai hyn effeithio ar allu eich Rhiant/Gwarcheidwad/Ysgol/Sefydliad Addysgol/Sefydliad Cyfeirio i fynychu gweithdai yn y dyfodol. Mae'n rhaid i'r Rhiant/Gwarcheidwad/Ysgol/Sefydliad Addysgol/Sefydliad Cyfeirio dalu am unrhyw gostau oherwydd difrod.

Cyffuriau ac Alcohol:

NI CHANIATEIR ysmegu, yfed alcohol na defnyddio cyffuriau yn ystod y gweithdy. Byddwn yn gofyn i unrhyw un sy'n cael eu dal i adael yn syth.